**Polisi Preifatrwydd**

Mae'r hysbysiad hwn yn disgrifio eich hawliau.
Mae'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â'ch hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol ynghyd â sut rydym ni'n casglu, defnyddio a rhannu'ch data.
Mae Articulture yn ymrwymedig i gadw at bob cyfraith ac mae hyn yn cynnwys Deddf Diogelu Data 2018 sy'n ymgorffori Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r UE (GDPR).
Rydym yn cydymffurfio ag egwyddorion y Ddeddf ac yn anelu at gynnal lefelau cyson uchel o ymarfer gorau wrth i ni brosesu'ch gwybodaeth. Bwriad y polisi hwn yw eich helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'ch gwybodaeth pan fyddwch yn defnyddio ein gwefan, yn ymgeisio am gomisiynau, neu'n gwneud ymholiadau cyffredinol.
Cymerwch funud i ddarllen a deall y Polisi.

Drwy wneud cyswllt ag Articulture, rydych yn cydsynio i ni gasglu a defnyddio'ch gwybodaeth yn y modd a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn. Os byddwn yn newid ein hysbysiad, ein polisi a/neu ein gweithdrefnau, byddwn yn postio'r newidiadau hynny ar ein gwefan er mwyn eich cadw'n ymwybodol o ba wybodaeth rydym yn ei chasglu, sut rydym yn ei defnyddio ac o dan ba amgylchiadau y gallem ni ei datgelu.

Ystyrir y byddwch, trwy barhau i ddefnyddio'r wefan hon, cyfathrebu ag Articulture wedi i'r hysbysiad hwn gael ei ddiwygio, yn parhau i dderbyn yr hysbysiad hwn, fel y'i diwygiwyd.

Bydd eich holl wybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio yn unol â'r Ddeddf lle bo hynny'n berthnasol. Bydd yr holl ddata a gesglir gan ymgeiswyr am gomisiynau yn cael eu dinistrio ar ôl 3 blynedd. Bydd yr holl ymholiadau cyffredinol i aelod o dîm Articulture yn cael eu dinistrio ar ôl 3 blynedd.

## PA WYBODAETH RYDYM YN EI CHASGLU?

Pan fyddwch chi'n ymweld â'n gwefan ac yn ei defnyddio, yn mynychu digwyddiadau, yn ymgeisio am gomisiwn, neu'n gwneud ymholiad cyffredinol, mae'n bosib y byddwch yn darparu neu y byddwn ni'n casglu'ch gwybodaeth megis eich cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost a gwybodaeth bersonol arall. Gallech chi ddarparu'r wybodaeth hon, neu gallem ni ei chasglu mewn nifer o ffyrdd:

Gwybodaeth y byddwch yn ei darparu'n wirfoddol i ni:

Rydym yn casglu ac yn cadw gwybodaeth y byddwch chi'n ei chyflwyno'n wirfoddol i ni wrth i chi gyfathrebu. Er enghraifft:

- Pan fyddwch chi'n cofrestru ar ein gwefan ar gyfer e-gylchlythyr neu'n ymgeisio am gomisiwn neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau rhwydweithio cymdeithasol, mae'n bosib y byddwch yn darparu gwybodaeth benodol i ni, gan gynnwys eich enw, cyfeiriad e-bost, gwybodaeth ddemograffig,

- Mae'n bosib y byddwch yn darparu gwybodaeth i ni yn ystod gohebiaeth e-bost, rhyngweithrediadau cymorth i gwsmeriaid, ac arolygon.

- Efallai y byddwn ni'n gofyn am wahanol ddarnau o wybodaeth. Gallwch chi ddewis peidio â darparu gwybodaeth benodol i ni, ond gallai hynny eich rhwystro rhag cael mynediad at wasanaeth neu gyfyngu ar y nodweddion y gallwch chi eu defnyddio ar ein gwefan a'r wybodaeth y gallwn ei hanfon atoch chi.

## MARCHNATA

Ble byddwch chi wedi darparu'r cydsyniad priodol i ni, neu ble mae'r Ddeddf yn caniatáu i ni wneud hynny, gallwn ni anfon deunyddiau marchnata i chi ynglŷn â digwyddiadau yn y dyfodol. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau y caiff yr hawliau a'r rhwymedigaethau a amlinellir yn y Ddeddf ac yn Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 eu parchu.

## DIOGELWCH EICH GWYBODAETH

Rydym yn dilyn gweithdrefnau diogelwch priodol wrth gadw a datgelu'ch gwybodaeth er mwyn rhwystro mynediad heb awdurdod gan drydydd partïon. Fodd bynnag, yn anffodus, nid yw trosglwyddo gwybodaeth drwy'r Rhyngrwyd yn gyfan gwbl ddiogel. Felly, ni allwn sicrhau diogelwch eich gwybodaeth a drosglwyddir gennych i ni drwy'r rhyngrwyd. Bydd unrhyw drosglwyddiad o'r fath ar eich risg eich hun ac rydych yn cydnabod ac yn cytuno na fyddwn ni'n gyfrifol am unrhyw ddefnydd o'ch gwybodaeth, ei dosbarthu, ei difrodi neu'i dinistrio, ac eithrio i'r graddau y mae'n ofynnol i ni dderbyn y fath gyfrifoldeb yn ôl y Ddeddf. Unwaith y byddwn wedi derbyn eich gwybodaeth, byddwn ni'n defnyddio gweithdrefnau a nodweddion diogelwch er mwyn atal mynediad ati heb awdurdod.

## CANLLAWIAU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Rydym yn ymddiried mewn defnyddwyr i fod yn gyfrifol, ac mae mwyafrif helaeth y bobl sy'n postio ar ein sianeli yn parchu'r ymddiriedaeth honno. Gall Articulture ddileu unrhyw gynnwys y mae'n ei ystyried yn anghyfreithlon (neu sy'n hyrwyddo ymddygiad anghyfreithlon) neu y mae'n barnu ei fod yn amhriodol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Sylwadau anweddus, tramgwyddus, cas neu ymfflamychol neu sylwadau sy'n ysgogi neu'n esgusodi trais yn erbyn unigolion neu grwpiau ar sail hil neu

darddiad ethnig, crefydd, anabledd, rhywedd, oed, cenedligrwydd, neu gyfeiriadedd rhywiol/hunaniaeth rhywedd, neu sydd â'r prif ddiben o ysgogi casineb ar sail y nodweddion craidd hynny
- Cynnwys bygythiol neu sarhaus neu gynnwys sy'n ymyrryd â phreifatrwydd rhywun arall, neu sy'n aflonyddu neu'n peri annifyrrwch, anghyfleustra, neu bryder diangen
- Cynnwys sy'n dangos gweithredoedd niweidiol neu beryglus
- Pornograffi neu gynnwys amlwg rywiol
- Sbam, sgamiau, cynnwys camarweiniol neu fetaddata
- Cynnwys treisgar neu gignoeth

Gallai rhai sylwadau eich tramgwyddo heb dramgwyddo ein canllawiau o anghenraid. Rydym yn cydnabod bod pobl yn meddwl, yn teimlo ac yn ymateb mewn ffyrdd gwahanol. Gall fod elfen o gydbwyso cynnil ynghlwm ag asesu cynnwys ac mae'n bosib na fydd ein hasesiadau yn plesio pawb bob amser.